



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MAETHU

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu

**Datganiad o safonau gofynnol cenedlaethol a gyhoeddir gan Gynulliad
Cenedlaethol Cymru o dan adran 23 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.**

Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu

Nodyn

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys datganiad o safonau gofynnol cenedlaethol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae'r datganiad yn gymwys i asiantaethau maethu fel y'u diffinnir gan adran 4 o'r Ddeddf honno.

Ynghyd â'r datganiad, at ddibenion esbonio'n unig, daw cyflwyniad i'r datganiad yn ei gyfanrwydd, a chyflwyniad pellach i bob grŵp o safonau.

Caiff pob safon unigol ei rhifo ac mae'n cynnwys y pennawd wedi'i rifo a pharagraffau wedi'u rhifo. Ceir teitl i bob safon, at ddibenion esbonio yn unig, a phan fo'n berthnasol arwydd o'r canlyniad a fwriedir mewn perthynas â'r safon honno.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad Cyffredinol	v
Cyd-destun Rheoliado	v
Sut y mae Rheoliadau a Safonau yn gweithio gyda'i gilydd	v
Rôl yr Arolygiaeth	v
Ymgynghori	vi
Cyflwyniad	vi
Y strwythur a'r ymagwedd	vii
Y berthynas â Safonau Cenedlaethol y DU ar gyfer Gofal Maeth	viii
1. Datganiad o Ddiben	1
Safon 1 – Datganiad o Ddiben	1
2. Addasrwydd i ddarparu neu reoli gwasanaeth maethu	3
Safon 2 – Sgiliau i redeg neu reoli	3
Safon 3 – Addasrwydd i redeg neu reoli	3
3. Rheoli gwasanaeth maethu	5
Safon 4 – Monitro a rheoli	5
Safon 5 – Rheoli effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd	5
4. Sicrhau a hybu lles	7
Safon 6 – Darparu gofalwyr maeth addas	7
Safon 7 – Rhoi gwerth ar amrywiaeth	7
Safon 8 – Paru	8
Safon 9 – Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod	9
Safon 10 – Hybu cysylltiad	10
Safon 11 – Ymgynghori	11
Safon 12 – Hybu datblygiad a iechyd	11
Safon 13 – Hybu cyflawniad addysgol	12
Safon 14 – Paratoi i fod yn oedolyn	13
5. Recriwtio, archwilio, rheoli, cefnogi a hyfforddi staff a gofalwyr maeth	15
Safon 15 – Addasrwydd i weithio gyda phlant	15
Safon 16 – Trefnu a rheoli staff	16
Safon 17 – Staff digonol/gofalwyr â'r sgiliau/profiad iawn	17
Safon 18 – Cyflogwyr teg a chymwys	19
Safon 19 – Hyfforddiant	19
Safon 20 – Atebolrwydd a chefnogaeth	20
Safon 21 – Rheoli a chefnogi gofalwyr	20
Safon 22 – Goruchwylio gofalwyr	21
Safon 23 – Hyfforddi gofalwyr	22

6. Cofnodion	23
Safon 24 – Cofnodion achos iblant	23
Safon 25 – Y Drefn Gwyno	24
Safon 26 – Cofnodion gweinyddol	25
7 Addasrwydd tir ac adeiladau at ddefnydd gwasanaeth maethu	27
Safon 27 – Tir ac adeiladau	27
8 Gofynion ariannol	29
Safon 28 – Hyfywedd ariannol	29
Safon 29 – Prosesau ariannol	29
Safon 30 – Talu gofalwyr	30
9 Panelau maeth	31
Safon 31	31
10 Seibiannau tymor byr	33
Safon 32	33
11 Teulu a chyfeillion fel gofalwyr	35
Safon 33	35
Atodiadau	
1 Geirfa	37
2 Llyfryddiaeth	39

Cyflwyniad Cyffredinol

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys safonau gofynnol cenedlaethol sy'n gymwys i wasanaethau maethu. Gyda'i gilydd, mae Rheoliadau Gwasanaeth Maethu (Cymru) 2003 a'r safonau hyn yn ffurfio sail y fframwaith reoliadol newydd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (DSG) ar gyfer cynnal gwasanaethau maethu.

Y Cyd-destun Rheoliadol

Mae'r rheoliadau a'r safonau yn disodli Rheoliadau Lleoliadau Maeth (Plant) 1991. Maent yn gymwys i wasanaethau maethu awdurdodau lleol, asiantaethau maethu annibynnol, a chyrff gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau maethu o dan adran 59 o Ddeddf Plant 1989.

Gwneir y rheoliadau o dan adrannau 22 a 48 o DSG, sy'n darparu'r pwerau i wneud y rheoliadau i lywodraethu cynnal y gwasanaethau a reoleiddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Sefydlwyd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (yr Arolygiaeth) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i arfer ei swyddogaethau rheoliadol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd a reoleiddiwyd cyn hynny gan gynghorau lleol ac awdurdodau iechyd yng Nghymru. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd bwerau o dan Ddeddf Plant 1989 i wneud rheoliadau ynghylch lleoli plant gyda rhieni maeth. Cyhoeddir y safonau gofynnol cenedlaethol o dan adrannau 23 a 49 o DSG.

Sut y mae'r Rheoliadau a'r Safonau yn gweithio gyda'i gilydd

Mae'r berthynas rhwng y rheoliadau a'r safonau a sut y maent yn gweithredu yn ymarferol yn bwysig iawn. Mae'r rheoliadau'n orfodol a rhaid i ddarparwyr gwasanaethau maethu gydymffurfio â hwy. Rhaid i'r Arolygiaeth ystyried y safonau wrth wneud ei phenderfyniadau.

Rôl yr Arolygiaeth

Pan fydd yr Arolygiaeth yn gwneud penderfyniad am doriad i'r rheoliadau (neu unrhyw benderfyniad am gofrestru, diddymu, amrywio neu osod amodau) rhaid iddi ystyried y safonau gofynnol cenedlaethol. Caiff hefyd ystyried unrhyw ffactorau eraill y mae'n barnu eu bod yn rhesymol neu'n berthnasol.

Os torrir rheoliad, ac y mae'r toriad yn dramgwydd, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i erlyn. Caiff y safonau eu hystyried mewn unrhyw gamau gorfodi.

Gallai'r Arolygiaeth benderfynu bod rheoliad wedi'i thorri er bod cydymffurfiaeth ar y cyfan â'r safonau. Ond mae'n rhaid iddo benderfynu pa gamau i'w cymryd, os o gwbl. Os caiff y safonau eu hwfftio'n gyson a/neu cânt

eu diystyru'n sylweddol neu'n ddifrifol, bydd yr Arolygiaeth yn cymryd camau gorfodi. Hyd yn oed bryd hynny (onid yw'r diffyg yn sylweddol), mae cyfle i'r darparwyr gymryd camau i wella'r sefyllfa cyn i gamau gorfodi gael eu cymryd.

Ymgynghori

Cynhyrchwyd y safonau a'r rheoliadau hyn yn dilyn ymgynghoriad eang yn genedlaethol, gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau maethu unigol a defnyddwyr unigol y gwasanaeth. Yr oedd llawer o sylwebyddion o'r farn y dylai'r rheoliadau ddefnyddio'r term 'gofalydd maeth' yn hytrach na 'rhiant maeth', gan mai'r cyntaf a ddefnyddir fel arfer. Y rheswm pam y mae'n rhaid i'r rheoliadau ddal i ddefnyddio'r term 'rhiant maeth' yw oherwydd mai dyna a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, Deddf Plant 1989.

Cyflwyniad

Cyhoeddir y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 23 a 49 o DSG. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn parhau i adolygu'r safonau a gall gyhoeddi safonau diwygiedig fel y bo'n briodol.

Dyma'r darparwyr gwasanaethau maethu y mae'r safonau hyn yn gymwys iddynt:

- ❖ gwasanaethau maethu awdurdod lleol
- ❖ asiantaethau maethu annibynnol sy'n cyflawni swyddogaethau maethu ar ran awdurdodau lleol
- ❖ cyrff gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau maethu yn eu hawl eu hunain, o danadran 59 o Ddeddf Plant 1989.

Safonau 'gofynnol' ydynt, yn hytrach nag arferion 'gorau posibl'. Bydd llawer o ddarparwyr gwasanaethau maethu yn mwy na bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol a byddant yn anelu at fod yn well na hwy mewn llawer ffordd. Nid yw safonau gofynnol yn golygu safoni'r ddarpariaeth. Lluniwyd y safonau i fod yn gymwys i amrywiaeth eang o wahanol fathau o ddarparwyr gwasanaethau maethu, ac i alluogi yn hytrach na rhwystro darparwyr unigol i ddatblygu eu hethos a'u hagwedd arbennig eu hunain tuag at ofal am blant a'u hanghenion gwahanol.

Er bod y safonau'n cael eu cyhoeddi at ddefnydd yr Arolygiaeth wrth reoleiddio darparwyr gwasanaethau darparu, byddant yn ddefnyddiol mewn ffyrdd ymarferol eraill o bwys. Gallant gael eu defnyddio gan ddarparwyr a staff wrth hunan asesu eu gwasanaethau, maent yn rhoi sylfaen er mwyn i staff gynefino a chael hyfforddiant, gallant gael eu defnyddio gan rieni, plant a phobl ifanc fel canllaw i'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan wasanaethau maethu, a gallant ddarparu canllawiau ar yr hyn sydd ei angen wrth sefydlu

gwasanaeth maethu. Anogir y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau maethu mewn unrhyw fodd i wneud defnydd llawn o'r safonau hyn yn y modd hwn.

Y strwythur a'r ymagwedd

Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu yn canolbwyntio ar ganlyniadau y gall plant a phobl ifanc eu cyflawni - hynny yw, effaith y gwasanaethau a ddarperir ar yr unigolyn.

Grwpir y safonau o dan gyfres o bynciau allweddol:

- ❖ datganiad o ddiben
- ❖ addasrwydd i redeg neu reoli gwasanaeth maethu
- ❖ rheoli gwasanaeth maethu
- ❖ sicrhau a hybu lles
- ❖ recriwtio, archwilio, rheoli, cefnogi a hyfforddi staff a gofalwyr maeth
- ❖ cofnodion
- ❖ addasrwydd y tir a'r adeiladau
- ❖ gofynion ariannol.

O flaen pob safon neu grŵp o safonau ceir datganiad o'r canlyniad sydd i'w gyflawni gan ddarparwydd y gwasanaeth maethu. Mae'r safonau eu hunain wedi'u rhifo a rhaid bodloni'r set lawn o baragraffau sy'n dwyn rhifau er mwyn cydymffurfio â'r safonau. Bwriedir i'r safonau fod yn ansoddol, sef eu bod yn offeryn ar gyfer pwysu a mesur ansawdd y bywyd a brofir gan ddefnyddwyr y gwasanaethau, ond lluniwyd hwy hefyd i fod yn fesuradwy.

Pa le bynnag y mae hynny'n bosibl, croesgyfeiriwyd Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 i'r safonau. Er hynny, gall fod rheoliadau eraill a/neu ddeddfwriaeth sylfaenol, yn benodol Deddf Plant 1989, hefyd yn berthnasol. Dylid ystyried y nodyn fel arweiniad cyffredinol ac nid yw'n gyfeiriad cyfreithiol trylwyr.

Wrth arolygu yn erbyn y safonau hyn, bydd yr Arolygiaeth yn dilyn methodoleg gyson wrth arolygu fformat gyson i adroddiadau drwy Gymru.

Bwriedir y bydd y safonau'n cael eu defnyddio, gan ddarparwyr y gwasanaethau maethu a chan yr Arolygiaeth, i ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol mewn lles, iechyd ac addysg i'r plant a'r bobl ifanc, a lleihau'r risgiau i'w lles a'u diogelwch. Dylai holl ddarparwyr a staff gwasanaethau maethu anelu at roi'r gofal gorau posibl i blant yn eu gofal, ac

mae parchu'r safonau yn rhan hanfodol, ond rhan yn unig, o'r cyfrifoldeb cyffredinol i ddiogelu a hybu lles pob un plentyn unigol.

Y berthynas â Safonau Cenedlaethol y DU ar gyfer Gofal Maeth

Mae Safonau Cenedlaethol y DU ar gyfer Gofal Maeth, a gynhyrchwyd ym 1999, ynghyd â'r Cod Ymarfer ar recriwtio, asesu, cymeradwyo, hyfforddi, rheoli a chefnogi gofalwyr maeth, yn para i fod yn gymwys i wasanaethau maethu.

Mae'r Safonau hynny yn fwy pellgyrhaeddol a phlentyn-ganolog - yn yr ystyr eu bod yn ymwneud â phob agwedd ar fywyd plentyn maeth, nid yn unig y gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaethau maethu. Er nad oes ganddynt statws cyfreithiol swyddogol mewn cymhariaeth â'r safonau gofynnol cenedlaethol a ddyroddwyd o dan y DSG, maent yn cynrychioli'r arferion gorau ac yn hynny o beth dylai darparwyr gwasanaeth maethu gydymffurfio'n llawn â hwy.

1. Datganiad o Ddiben ac Arweiniad i Blant

Canlyniad

Mae datganiad clir o nodau ac amcanion y gwasanaeth maethu ac mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau ei fod yn bodloni pob un o'r nodau ac amcanion hynny.

Safon 1

1.1 Mae datganiad clir o nodau ac amcanion y gwasanaeth maethu ac o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

1.2 Ceir datganiad o ddiben sy'n nodi'n glir pa wasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer plant sy'n cael eu lleoli gan y gwasanaeth maethu. Os darperir gwasanaethau addysg neu iechyd gan gynnwys unrhyw wasanaethau therapiwtig, ymdrinnir â hwy yn y datganiad o ddiben.

1.3 Mae'r darparwydd cofrestredig yn cymeradwyo'n ffurfiol ddatganiad o ddiben y gwasanaeth maethu, ac yn ei adolygu, ei ddiweddarau a'i addasu pan fo hynny'n angenrheidiol o leiaf unwaith y flwyddyn.

1.4 Mae'r datganiad yn cynnwys y manylion canlynol ynghylch y gwasanaethau maethu:

- ❖ ei statws a'i gyfansoddiad (ar gyfer asiantaethau)
- ❖ ei strwythur rheoli
- ❖ y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac unrhyw gyfyngiadau y mae'n eu gweithredu
- ❖ ei nodau a'i amcanion, ei egwyddorion a'i safonau gofal
- ❖ niferoedd, cymwysterau a phrofiad perthnasol y staff
- ❖ y gweithdrefnau a'r prosesau i recriwtio, cymeradwyo, hyfforddi, cefnogi ac adolygu gofalwyr
- ❖ ystod y gwasanaethau cefnogi, gan gynnwys cefnogaeth ariannol
- ❖ trefniadau i fonitro a chynnwys ansawdd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwynion eu gwasanaethau.

1.5 Bydd arweiniad y plant i'r gwasanaeth maethu yn addas ar gyfer yr holl blant a faethir drwy'r gwasanaeth, bydd yn cynnwys crynodeb o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn anelu ei wneud ar gyfer plant, ac a ddarperir i blant cyn gynted ag y maethir hwy, ac i'r holl ofalwyr maeth. (Os bydd angen, cynhyrchir yr arweiniad mewn fformadau gwahanol i fodloni anghenion grwpiau gwahanol o blant). Mae'r arweiniad i blant yn cynnwys gwybodaeth ar sut y gall plentyn gael gfael ar eiriolydd annibynnol a sut i gwyno, gan gynnwys yr hawl i fynd at Gomisiynydd Plant Cymru.

1.6 Mae polisiâu'r gwasanaeth maethu, ei weithdrefnau ac unrhyw ganllawiau ysgrifenedig i staff a gofalwyr yn adlewyrchu'r datganiad o ddiben yn gywir.

[Rheoliad: Datganiad o ddiben ac arweiniad i blant, Adolygu'r datganiad o ddiben a'r arweiniad i blant]

2. Addasrwydd i ddarparu neu reoli gwasanaeth maethu

Canlyniad

Mae datganiad clir o nodau ac amcanion i'r gwasanaeth maethu ac mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau ei fod yn bodloni pob un o'r nodau ac amcanion hynny.

Safon 2 – Sgiliau i redeg neu reoli.

2.1 Mae gan y bobl sy'n ymwneud â rhedeg a rheoli'r gwasanaeth maethu y sgiliau busnes a rheoli angenrheidiol a'r arbenigedd ariannol i reoli'r gwaith yn effeithlon ac effeithiol, sicrhau ei fod yn cael ei redeg ar sail ariannol gadarn a bod ganddynt yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol am ofal plant a maethu i wneud hynny mewn modd proffesiynol.

2.2 Mae gan y rheolwr:

- ❖ gymhwyster proffesiynol perthnasol i weithio gyda phlant, sef naill ai NVQ lefel 4 neu DipSW neu gymhwyster arall sy'n cyfateb i'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan NVQ Lefel 4;
- ❖ erbyn 2005, cymhwyster ar lefel 4 NVQ mewn rheoli neu gymhwyster arall sy'n cyfateb y cymwyseddau sy'n ofynnol gan NVQ Lefel 4; ac
- ❖ o leiaf ddwy flynedd o brofiad yn gweithio mewn gwasanaethau plant yn y pum mlynedd ddiwethaf, ac yn ychwanegol blwyddyn o leiaf o brofiad yn gweithio ar lefel uwch.

2.3 Ar gyfer y cyfnod trosiannol mewn perthynas â chymwysterau rheoli, bydd y rhai a benodir i swydd rheolwr nad oes ganddynt gymwysterau o'r fath yn dechrau hyfforddiant rheoli priodol o fewn chwe mis ar ôl eu penodi.

2.4 Mae'r rheolwr yn rhoi arweiniad effeithiol i'r staff ac yn sicrhau bod y gwasanaeth maethu wedi'i drefnu, ei reoli a'i staffio mewn modd sy'n rhoi'r gofal gorau posibl i blant.

Safon 3 – Addasrwydd i redeg neu reoli

3.1 Mae unrhyw bersonau sy'n rhedeg neu reoli gwasanaeth maethu yn bobl addas i redeg busnes sy'n ymwneud â diogelu a hybu lles plant.

3.2 Ar gyfer y tystlythyrau a nodir yn Atodlen 1 o Reoliadau Gwasanaeth Maethu (Cymru) 2003, gwneir ymholiadau ar y ffôn i ddiweddarau'r tystlythyrau ysgrifenedig.

3.3 Caiff tystysgrifau datgelu manwl y Swyddfa Cofnodion Troseddol eu hadnewyddu bob tair blynedd.

3.4 Cedwir cofnodion o'r archwiliadau a'r tystlythyrau a gafwyd a'u canlyniadau.

[Rheoliadau: Asiantaeth Faethu – addaswydd y darparrydd, Asiantaeth Faethu – addaswydd y rheolwr, Person cofrestredig – gofynion cyffredinol, gwasanaethau maethu awdurdod lleol – rheolwr]

3. Rheoli'r gwasanaeth maethu

Canlyniad

Rheolir y gwasanaeth maethu yn effeithiol ac effeithlon, mae'n rhoi gwasanaeth gofal maeth o ansawdd da ac yn osgoi dryswch a gwrthdaro mewn rolau.

Safon 4 – Monitro a rheoli

4.1 Mae gweithdrefnau clir ysgrifenedig i fonitro a rheoli gweithgareddau'r gwasanaeth maethu a sicrhau perfformiad o ansawdd da.

4.2 Mae rolau clir ar gyfer rheolwyr a staff a llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd rhwng rheolwyr, staff a gofalwyr.

4.3 Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau ariannol ysgrifenedig priodol a gweithdrefn adolygu i'w diweddarau.

4.4 Darperir gwybodaeth i brynwyr gwasanaethau ac i eraill. Mae hyn yn cynnwys: taliadau am bob un o'i ddatganiadau gwasanaethau o'r swm a dalwyd i ofalwyr maeth, a rhestr o'r symiau a dalwyd am wasanaethau ehangach a all gynnwys iechyd ac addysg.

4.5 Mae gan y gwasanaeth maethu weithdrefnau ysgrifenedig clir sy'n ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr, rheolwyr a staff; ddatgan unrhyw wrthdaro posibl mewn buddiannau.

Safon 5 – Rheoli'n effeithiol ac effeithlon

5.1 Rheolir y gwasanaeth maethu yn effeithiol ac effeithlon.

5.2 Mae gan y rheolwr ddisgrifiad swydd sy'n nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau ac nid yw'n dal swydd debyg mewn corff neu fudiad arall.

5.3 Mae lefel dirprwyo a chyfrifoldeb y rheolwr, a llinellau atebolrwydd wedi cael eu diffinio'n glir.

5.4 Mae trefniadau clir ar waith i allu adnabod y person sydd wrth y llyw pan fydd y rheolwr yn absennol.

[Rheoliadau: Asiantaeth Faethu – addasrwydd y darparwydd, Asiantaeth Faethu – penodi rheolwr, Asiantaeth Faethu – addasrwydd y rheolwr, person cofrestredig – gofynion cyffredinol, gwasanaeth maethu awdurdod lleol – rheolwr, Addasrwydd y gweithwyr, Adolygu ansawdd y gofal]

4. Sicrhau a hybu lles

Canlyniad

Mae'r gwasanaeth maethu yn hybu a diogelu lles corfforol a meddyliol ac emosiynol y plentyn/person ifanc.

Safon 6 – Darparu gofalwyr maeth addas

6.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn trefnu bod gofalwyr maeth ar gael sy'n darparu amgylchedd diogel, iach a maethlon.

6.2 Mae'r cartref maeth yn gallu lletya'n gyfforddus bawb sy'n byw yno. Caiff ei arolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion plant maeth.

6.3 Mae'r cartref yn gynnes, wedi'i ddodrefnu a'i addurno'n ddigonol ac yn cael ei gadw i safon dda o lanweithdra a hylendid.

6.4 Mae gan bob plentyn a leolir ei wely ei hun ac mae'r trefniadau lletya yn adlewyrchu angen asesedig y plentyn am breifatrwydd a gofod neu unrhyw angen penodol sy'n deillio o anabledd.

6.5 Os cafodd y plentyn ei gam-drin neu os gall ei fod wedi cael ei gam-drin neu os yw wedi cam-drin neu os amheuir iddo gam-drin plentyn arall, yna asesir anghenion y plentyn ac anghenion yr holl blant eraill sy'n byw yn y cartref neu'n ymweld ag ef cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud i leoli'r plentyn neu ganiatáu rhannu ystafell wely. Cofnodir canlyniad yr asesiad hwnnw yn ysgrifenedig.

6.6 Mae'r cartref a'r amgylchedd agos yn rhydd rhag peryglon y gellir eu hosgoi a allai osod plentyn yn agored i risg anaf neu niwed ac yn cynnwys bariau diogelwch a chyfarpar priodol i oedran y plentyn, ei ddatblygiad a lefel ei allu.

6.7 Mae paratoad a hyfforddiant y gofalydd maeth yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch a rhoddir canllawiau ysgrifenedig i'r gofalydd ar eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

6.8 Os bydd disgwyl i'r gofalydd maeth ddarparu cludiant i'r plentyn, bydd y gwasanaeth maethu yn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn briodol i anghenion y plentyn.

6.9 Mae gofalwyr maeth yn deall y gellir eu cyfweld neu y gellir ymweld â hwy fel rhan o broses arolygu'r Arolygiaeth.

Safon 7 – Rhoi gwerth ar amrywiaeth

7.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, yn cael eu darparu â gwasanaethau gofal maeth sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a hybu cyfartaledd.

7.2 Mae gan bob plentyn a'i deulu fynediad at y gwasanaethau gofal maeth sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael â'i anghenion o ran rhyw, crefydd, tarddiad ethnig, iaith, diwylliant, anabledd a rhywioldeb.

7.3 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol yn cydweithio i wella hyder y plentyn a'i deimlad o hunan-barch. Mae hyfforddiant gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol yn ymwneud â'r mater hwn.

7.4 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod ei ofalwyr maeth yn darparu gofal sy'n parchu ac yn cadw cefndir ethnig, crefyddol, diwylliannol a ieithyddol pob plentyn. Mae paratoad a hyfforddiant gofalwyr maeth yn ymdrin â hyn.

Os oes rhaid gwneud lleoliad maeth ar frys ac nad oes lleoliad addas ar gael ar y telerau uchod, yna cymerir camau i fynd i'r afael ag anghenion y plentyn o ran rhyw ac yn y blaen cyn pen 6 wythnos.

7.5 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod eu gofalwyr maeth yn cefnogi ac yn annog pob plentyn i ddatblygu sgiliau i'w helpu i ymdrin â phob ffurf ar wahaniaethu. Mae paratoad a hyfforddiant gofalwyr maeth yn ymdrin â hyn.

7.6 Mae gan bob plentyn ag anabledd fynediad at wasanaethau penodol a chefnogaeth i'w helpu i wneud y gorau o'i botensial ac i arwain bywyd mor llawn â phosibl, gan gynnwys cyfarpar priodol ac, os oes angen a phan fo'n briodol, addasiad o gartref a/neu gerbyd y gofalydd.

7.7 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod ei ofalwyr maeth yn rhoi anogaeth i bob plentyn a mynediad cyfartal i gyfleoedd i ddatblygu a dilyn ei dalentau a'i ddiddordebau a'i weithgareddau hamdden. Nodir hyn yn yr wybodaeth a roddir i ofalwyr maeth. Darperir gwasanaethau a chefnogaeth i blant anabl sy'n eu galluogi i fanteisio ar ystod o weithgareddau mor eang ag sy'n bosibl iddynt.

Safon 8 – Paru

8.1 Mae gwasanaethau maeth awdurdod lleol, ac asiantaethau gwirfoddol sy'n lleoli plant yn ôl eu hawl eu hunain, yn sicrhau bod pob plentyn neu berson ifanc a leolir mewn gofal maeth yn cael ei baru'n ofalus â gofalydd sy'n gallu bodloni ei anghenion asesedig. O ran asiantaethau sy'n darparu gofalwyr maeth i awdurdodau lleol, mae'r asiantaethau hynny'n sicrhau eu bod yn cynnig gofalwyr ond yn unig os ydynt yn cynrychioli paru priodol ar gyfer plentyn y mae'r awdurdod lleol yn ceisio gofalydd ar ei gyfer.

8.2 Wrth baru plant â gofalwyr, mae awdurdodau cyfrifol yn ystyried anghenion diwylliannol a chrefyddol y plentyn.

8.3 Cyflawnir paru drwy rannu gwybodaeth a chydystyriaeth sy'n ymwneud â'r holl weithwyr proffesiynol, y plentyn a'i deulu a'i ofalwyr posibl, eu teuluoedd hwy a phlant eraill wedi'u lleoli.

8.4 Mae cytundebau lleoliad maeth ysgrifenedig yn cynnwys cyfeiriad penodol at elfennau paru a gymerwyd i ystyriaeth wrth gytuno ar y lleoli ac yn dynodi manau y mae angen cefnogaeth ychwanegol ar ofalwyr maeth i wneud iawn am unrhyw fylchau yn y paru rhwng y plentyn a'r gofalydd.

8.5 Mae penderfyniad ar leoliadau yn ystyried anghenion asesedig hiliol, ethnig, crefyddol, diwylliannol ac ieithyddol ac yn eu paru mor agos â phosibl â tharddiad ethnig, hil, crefydd, diwylliant ac iaith y teulu maeth.

8.6 Pan wneir lleoliadau trawshiliol neu drawsgymunedol, bydd yr awdurdod cyfrifol yn darparu'r teulu maeth â hyfforddiant, cefnogaeth a gwybodaeth ychwanegol i alluogi'r plentyn i gael y gofal gorau posibl a datblygu dealltwriaeth gadarnhaol am ei dreftadaeth.

8.7 Pan fydd yn ymarferol, bydd pob plentyn yn cael cyfle i gael cyfnod cyflwyno i ofalydd maeth arfaethedig fel y gall fynegi safbwynt anffurfiol am y lleoliad a dod yn gyfarwydd â'r gofalydd, teulu'r gofalydd, unrhyw blant eraill yn y lleoliad, a'r cartref, y gymdogaeth ac unrhyw anifeiliaid anwes yn y teulu, cyn symud i fyw yno. Mae'r wybodaeth ar gyfer gofalwyr yn esbonio bod yr agwedd hon yn cael ei gweithredu os bydd yn bosibl.

Safon 9 – Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

9.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn amddiffyn pob plentyn neu berson ifanc rhag pob dull o gam-drin, esgeuluso, ecsbloetio, amddifadu a gwahaniaethu.

9.2 Mae hyfforddiant i ofalwyr maeth yn cynnwys hyfforddiant mewn gofal am blentyn a gafodd ei gam-drin, rheoli ymddygiad ac adnabod arwyddion camdriniaeth a dulliau hybu a chynnal hunan-barch y plentyn.

9.3 Darperir canllawiau gofal diogel, wedi'u seilio ar bolisiau ysgrifenedig ac wedi'u cynnwys yn y cytundeb gofal maeth, i bob cartref maeth, mewn ymgynghoriad â'r gofalydd a phawb arall ar yr aelwyd. Cytunir ar y canllawiau gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac esbonir hwy yn glir ac yn briodol i'r plentyn.

9.4 Mae'r gwasanaeth maethu yn ei gwneud yn glir i'r gofalwyr maeth nad yw cosbi corfforol yn dderbyniol ac mae hyn yn cynnwys smacio, slapio, ysgwyd a phob dull bychanol arall o driniaeth neu gosb. Nodir hyn yn glir mewn gwybodaeth ysgrifenedig i ofalwyr maeth.

9.5 Mae systemau rheoli ar waith i gydlynu a gwerthuso gwybodaeth ar yr amgylchiadau, nifer a chanlyniadau pob honiad am esgeulustod neu gamdriniaeth o blentyn mewn gofal maeth. Creffir ar yr wybodaeth yn rheolaidd.

9.6 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod gofalwyr maeth yn ymwybodol pa mor agored i niwed yw plant sy'n derbyn gofal a pha mor dueddol ydynt i

gael eu bwlio ac mae gweithdrefnau ar waith i adnabod, cofnodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddigwyddiad o fwlio a helpu gofawyr maeth i ddygymod ag ef.

9.7 Darperir gwybodaeth lawn i bob gofalydd maeth am y plentyn maeth a'i deulu i alluogi'r gofalydd amddiffyn y plentyn maeth, plant y gofalydd, plant eraill y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt a nhw eu hunain.

9.8 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod gan y gofalydd maeth weithdrefn glir ysgrifenedig i'w rhoi ar waith os bydd y plentyn maeth ar goll o'r cartref.

Safon 10 – Hybu cysylltiadau

10.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod pob plentyn neu berson ifanc mewn gofal maeth yn cael ei annog i gynnal a datblygu cysylltiadau teuluol a chyfeillgarwch fel a nodir yn ei gynllun gofal a/neu gytundeb lleoliad maeth.

10.2 Mae gweithdrefnau clir yn nodi sut y sefydlir trefniadau cysylltiadau priodol ar gyfer pob plentyn mewn gofal maeth, eu cynnal, eu monitro a'u hadolygu.

10.3 Mae'r gwasanaeth maethu yn ystyried yr angen am gysylltiadau priodol i'r plentyn a'u manteision wrth ddod o hyd i neu wrth awgrymu gofalydd maeth addas. Rhoddir sylw i gefnogi cysylltiadau pan leolir plentyn y tu allan i'w gymuned.

10.4 Ceisir sylwadau'r plentyn neu'r person ifanc ac maent o bwys wth benderfynu trefniadau'r cysylltiadau.

10.5 Wrth asesu a hyfforddi gofawyr, mae'r gwasanaeth maethu yn pwysleisio pwysigrwydd gofawyr maeth yn helpu plentyn i gynnal cysylltiadau priodol ac yn ymdrin â'r sgiliau y mae angen amdanynt i annog a hyrwyddo cysylltiadau o'r fath.

10.6 Ac eithrio bod gofyniad llywodraethol yn bodoli, e.e. gorchymyn llys, mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau nad yw'r cysylltiad yn digwydd nes i weithiwr cymdeithasol y plentyn gyflawni asesiad risg a bod trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer unrhyw oruchwylio y mae angen amdano.

10.7 Mae'r gwasanaeth maethu yn darparu help a chefnogaeth i'r gofalydd wrth ymdrin ag unrhyw faterion cysylltiadau anodd a all godi. Mae darparwydd y gwasanaeth maeth yn sicrhau bod rôl gofalydd maeth yn cefnogi trefniadau cysylltiadau, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer goruchwylio cysylltiadau wedi'u datgan yn glir yn y Cytundeb Lleoliad Maeth.

10.8 Rhoddir cefnogaeth ariannol i'r gofalydd ar gyfer cludiant neu gostau eraill sydd ynghlwm wth sicrhau bod cysylltiadau'n digwydd yn ôl yr amllder a ddymunir ac yn y lle mwyaf addas.

10.9 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod y gofalydd yn cofnodi canlyniadau trefniadau'r cysylltiadau a'r effaith a dybir y cânt ar y plentyn; rhoddir adborth o'r wybodaeth hon i weithiwr cymdeithasol y plentyn.

Safon 11 – Ymgynghori

11.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod safbwyntiau'r plant, a safbwyntiau eu teuluoedd a phobl eraill sy'n arwyddocaol i'r plentyn, yn cael eu ceisio ar bob mater sy'n debygol o effeithio ar eu bywyd bob dydd a'u dyfodol.

11.2 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod yr holl ofalwyr maeth yn deall pwysigrwydd gwrando ar safbwyntiau plant yn eu gofal, a'u bod wedi'u hyfforddi a'u cefnogi wrth wrando ar safbwyntiau plant ac ymateb iddynt.

11.3 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod barn a safbwyntiau plant ar yr holl faterion sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys materion o ddydd i ddydd, yn cael sylw ar sail reolaidd ac aml ac nad ydynt yn cael eu cymryd yn ganiataol.

11.4 Darperir dulliau addas, yn aml, i unrhyw blentyn ag anawsterau cyfathrebu i allu cyfleu eu teimladau a'u dymuniadau ynghylch eu gofal a'u triniaeth.

11.5 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod plant mewn gofal maeth yn gwybod sut i leisio unrhyw bryder neu gwyn, ac mae'n sicrhau y byddant yn cael adborth ar unwaith ar unrhyw bryder neu gwyn a godwyd.

Safon 12 – Hybu datblygiad ac iechyd

12.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau gofal maeth sy'n helpu pob plentyn neu berson ifanc mewn gofal maeth i gael gofal iechyd sy'n bodloni ei anghenion i ddatblygu'n gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol, ynghyd â gwybodaeth a hyfforddiant sy'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth a fydd yn galluogi cymryd rhan yn ddeallus mewn penderfyniadau am ei anghenion iechyd.

12.2 Mae'r gwasanaeth maethu yn wybodus am y gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol, sydd ar gael yn yr ardal y mae'n gweithredu ynddi ac mae'n cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddod o hyd i neu wrth awgrymu gofalydd maeth i blentyn. Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau na wneir unrhyw leoliad sy'n atal plentyn rhag parhau i gael gwasanaethau gofal iechyd arbenigol y mae eu hangen arno.

12.3 Cyn i'r lleoliad ddechrau, rhoddir i'r gofalydd ddisgrifiad mor llawn â phosibl o anghenion iechyd plentyn a gweithdrefnau clir sy'n rheoli cydsyniad i'r plentyn gael triniaeth feddygol. Pan fydd lleoliad gan asiantaeth, bydd yr awdurdod cyfrifol yn rhoi'r wybodaeth hon i'r asiantaeth a bydd yr asiantaeth yn ei rhoi i'r gofalydd. Os nad yw'r manylion llawn o'r anghenion iechyd ar gael cyn lleoli, rhoir blaenoriaeth uchel i sicrhau y deuir o hyd i'r wybodaeth a'i rhoi i'r gofalydd maeth cyn gynted â bod y lleoliad wedi'i wneud.

12.4 Rhoddir i'r gofalydd gofnod iechyd ysgrifenedig ar gyfer pob plentyn a roir i'w ofal; diweddarir hwn yn ystod y lleoliad ac mae'n mynd gyda'r plentyn. Gan ddibynnu ar oedran a dealltwriaeth, mae gan y plentyn hawl i weld ac mae'n deall y cofnod iechyd a gedwir gan y gwasanaeth maethu.

12.5 Rhoddir i bob gofalydd hyfforddiant ar faterion iechyd a hylendid a chymorth cyntaf, gyda phwyslais ar hybu iechyd ac afiechydon trosglwyddadwy .

12.6 Mae'r gwasanaeth maethu yn ei gwneud yn eglur i'r gofalwyr eu rôl o ran helpu i hybu iechyd unrhyw blentyn yn eu gofal. Mae hyn yn cynnwys: sicrhau bod pob plentyn mewn lleoliad maeth yn cyfranogi'n weithredol ac yn ddeallus

- ❖ cofrestru plentyn gyda meddyg neu ddeintydd pan fydd angen
- ❖ mynd â phlentyn i unrhyw apwyntiadau iechyd, gan gynnwys apwyntiadau deintydd ac optegydd pan fydd angen
- ❖ helpu'r plentyn i gael gafael ar y gwasanaethau y mae arno'u hangen
- ❖ rhoi sylw i faterion iechyd wrth ofalu am y plentyn o ddydd i ddydd, gan gynnwys deiet, hylendid personol, materion hybu iechyd ac yn y blaen
- ❖ gweithredu fel eiriolydd ar ran y plentyn.

12.7 Mae gan y gwasanaeth maethu gysylltiadau da â'r asiantaethau iechyd ac mae'n helpu'r gofalydd i sicrhau gwasanaethau ar gyfer y plentyn pan fydd angen.

12.8 Mae'r gwasanaeth maethu yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth roi gwybodaeth am anghenion iechyd y plentyn ar gyfer y broses gynllunio ac adolygu.

Safon 13 – Hybu cyflawniad addysgol

13.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn rhoi blaenoriaeth uchel i fodloni anghenion addysgiadol pob plentyn neu berson ifanc mewn gofal maeth ac yn sicrhau ei fod yn cael ei annog i gyrraedd ei botensial llawn.

13.2 Mae'r gwasanaeth maethu yn rhoi blaenoriaeth uchel i helpu eu gofalwyr maeth i fodloni anghenion addysgiadol y plentyn.

13.3 Mae'r gwasanaeth maethu yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth gyfrannu tuag at asesu anghenion addysgiadol y plentyn a mynd rhagddi at y broses gynllunio ac adolygu. Mae'r gwasanaeth maethu yn helpu'r gofalydd maeth i gyfrannu at gyflwyno unrhyw gynllun addysg personol.

13.4 Mae rôl y gofalydd maeth mewn cysylltiadau yn yr ysgol, e.e., nosweithiau rhieni, dyddiau agored, trafodaethau ag athrawon, mewn

cydgysylltiad â'r rhiant geni pan fydd yn briodol ac yn unol â'r cynllun gofal, wedi ei nodi'n glir yn y cytundeb lleoli.

13.5 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod eu gofalwyr maeth yn darparu amgylchedd lle gwerthfawrogi addysg a dysg; a bod y gofalydd maeth yn creu patrwm lle disgwylir presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, ac yn cefnogi cyfranogiad llawn y plentyn drwy roi gwisg ysgol a chyfarpar, cefnogaeth i orffen y gwaith cartref, a chefnogaeth ariannol ac arall i fynd ar dripiâu ysgol a gweithgareddau ar ôl ysgol.

13.6 Mae gan y gwasanaeth maethu systemau gwybodaeth i ddangos cyrhaeddiad addysgiadol y plant a'r bobl ifanc yn eu gwasanaethau gofal maeth a dangos y niferoedd a waherddir o'r ysgol.

13.7 Mae'r gwasanaeth maethu yn gwneud ei ddisgwyliadau'n glir (mewn perthynas â chyfrifoldebau diwrnod ysgol) oddi wrth y gofalwyr maeth a'r trefniadau a fydd ar waith os na fydd unrhyw blentyn yn eu gofal yn yr ysgol. Mae'r trefniadau hynny'n cynnwys gwaith strwythuredig yn ystod oriau ysgol.

13.8 Mae'r cytundeb lleoliad maeth yn nodi lle mae cyfrifoldeb ariannol ar gyfer holl gostau ysgol, gan gynnwys gwisg ysgol, tripiâu ysgol a chyfarpar ysgol.

Safon 14 – Paratoi at fod yn oedolyn

14.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod eu gwasanaethau gofal maeth yn helpu i ddatblygu sgiliau, cymhwysedd a gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd oedolyn.

14.2 Mae gofynion clir ysgrifenedig ar yr hyn a ddisgwylir oddi wrth ofalwyr maeth o ran paratoi plant a phobl ifanc i fyw'n annibynnol neu'n lled-annibynnol.

14.3 Mae gofalwyr maeth yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i'w galluogi i roi cefnogaeth ac arweiniad effeithiol i berson ifanc sy'n paratoi i symud i fyw'n annibynnol neu'n lled-annibynnol.

14.4 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod gofalwyr maeth yn deall bod angen iddynt roi i bob plentyn yn eu gofal gyfleoedd priodol ar gyfer oedran a datblygiad y plentyn i ddysgu sgiliau at fyw'n annibynnol.

14.5 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod pob person ifanc sy'n paratoi i symud i fyw'n annibynnol neu'n lled-annibynnol wedi ymgynghori am ei ddyfodol a'i fod yn cael ei annog i gymryd rhan yn weithredol yn y prosesau penderfynu a gweithredu'r Cynllun Llwybr. (Mae'r Cynllun Llwybr yn flaengynllun ysgrifenedig i'r person ifanc. Dylai fynd i'r afael â'r materion hynny sy'n berthnasol i'w fywyd yn y dyfodol pan na fydd mwyach yn derbyn gofal. Dylai'r cynllun gynnwys camau perthnasol a enwir ac ymwneud â phynciau a restrir yn Atodlen 1 o Reoliadau Plant yn Ymadael â Gofal 2000).

[Rheoliadau: Asiantaethau Maeth Annibynnol – dyletswydd i ddiogelu lles, Trefniadau ar gyfer amddiffyn plant, Rheoli ymddygiad ac absenoldeb o gartref y rhiant maeth, Dyletswydd i hybu cysylltiadau, Iechyd plant a leolir gyda rhieni maeth, Addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden, Asiantaethau Maethu Annibynnol – cwynion a sylwadau]

5. Recriwtio, archwilio, rheoli, cefnogi a hyfforddi staff gofalwyr maeth

Canlyniad

Mae'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu neu ar ei ran yn addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc ac maent yn cael eu rheoli, eu hyfforddi a'u cefnogi yn y fath fodd ag i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant mewn gofal maeth. Mae nifer y staff a gofalwyr ac ystod eu cymwysterau a phrofiad yn ddigonol i gyflawni dibenion a swyddogaethau y corff neu'r mudiad.

Safon 15 – Addasrwydd i weithio gyda phlant

15.1 Mae pwy bynnag sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu neu ar ei ran yn bobl addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc ac i ddiogelu a hybu eu lles.

15.2 Mae gweithdrefnau recriwtio a dethol clir ysgrifenedig ar gyfer penodi staff ac maent yn dilyn arferion da wrth ddiogelu plant a phobl ifanc. Mae'r holl bersonél sy'n gyfrifol am recriwtio a dethol staff wedi'u hyfforddi ynddynt ac yn eu deall a'u gweithredu.

15.3 Caiff pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu neu ar ei ran eu cyfweled fel rhan o'r broses ddethol ac y gwiriwyd eu tystlythyrau i asesu eu haddasrwydd cyn dechrau ar eu cyfrifoldebau. Gwneir ymholiadau ar y ffôn yn ogystal â chael tystlythyrau ysgrifenedig.

15.4 Cedwir cofnodion o'r archwiliadau a'r tystlythyrau a gafwyd a'u canlyniadau. Gweir gwiriadau yn y Swyddfa Cofnodion Troseddol bob tair blynedd.

15.5 Mae gan yr holl staff gwaith cymdeithasol gymhwyster priodol, neu maent ar drywydd cael cymhwyster proffesiynol addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr maeth, a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o ofal maeth. Mae'r wybodaeth briodol a'r sgiliau ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ❖ dealltwriaeth o'r Ddeddf Plant, rheoliadau a chanllawiau i'r Ddeddf Plant, polisïau a gweithdrefnau perthnasol cyfredol, Gweithio gyda'n Gilydd ac arweiniad cysylltiedig i amddiffyn plant, y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd a'r gofynion rheoliadol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a chyfraith mabwysiadu
- ❖ gwybodaeth am dwf a datblygiad plant a'r gallu i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc
- ❖ deall pwysigrwydd y drefn gwyno
- ❖ y gallu i hybu cyfartaledd, amrywiaeth a hawliau unigolion a grwpiau
- ❖ gwybodaeth o rolau asiantaethau eraill, yn benodol iechyd ac addysg.

15.6 Mae unrhyw staff gwaith cymdeithasol sy'n ymwneud ag asesu a chymeradwyo gofalwyr maeth yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig, a chanddynt brofiad o ofal maeth a gwaith lleoliadau teulu ac wedi'u hyfforddi mewn asesu. Mae myfyrwyr ac eraill nad ydynt yn bodloni'r gofyniad hwn yn

cyflawni'r asesiadau a'r cymeradwyaethau o dan oruchwyliaeth rhywun cymwys, ac sy'n gyfrifol am yr asesiadau a'r cymeradwyaethau.

15.7 Mae'r holl addysgwyr, seicolegwyr, therapyddion a gweithwyr proffesiynol eraill yn gymwys yn broffesiynol ac wedi'u hyfforddi'n briodol i weithio gyda phlant a phobl ifanc eu teuluoedd a'u gofalwyr maeth, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofal maeth.

15.8 Pan fydd staff sydd heb eu cymhwyso yn cyflawni swyddogaethau gwaith cymdeithasol maent yn gwneud hynny o dan oruchwyliaeth gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, sydd yn atebol am eu gwaith.

Safon 16 – Trefnu a rheoli staff

16.1 Trefnir a rheolir y staff yn y fath fodd fel eu bod yn cyflwyno gwasanaeth gofal maeth yn effeithiol ac effeithlon.

16.2 Mae strwythur rheoli clir gyda llinellau atebolrwydd clir.

16.3 Caiff Staff eu rheoli a'u monitro gan bobl sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol.

16.4 Diffinnir lefel dirprwyo rheolaeth a chyfrifoldeb yn glir ac maent yn briodol i sgiliau, cymwysterau a phrofiad aelodau perthnasol o'r staff.

16.5 Mae gan y gwasanaeth maethu systemau ar waith i benderfynu blaenoriaethu a monitro beichiau gwaith a gosod tasgau i staff priodol.

16.6 Mae strwythurau a systemau ar gael i sicrhau bod asesiadau, cymeradwyaethau ac adolygiadau gofalwyr yn cael ei rheoli a'u gweithredu'n effeithiol. Mae awdurdodau lleol sy'n defnyddio asiantaethau yn archwilio adroddiadau arolygu'r Arolygiaeth cyn gwneud hynny, i sicrhau nad oes pryderon ynghylch prosesau asesu, cymeradwyo ac adolygu'r asiantaethau.

16.7 Os bydd gwasanaeth maethu awdurdod lleol yn defnyddio asiantaeth i ddarparu gofalydd maeth, mae ganddynt system i sicrhau bod ansawdd y gofal i'w ddarparu wedi'i bennu'n glir yn y contract a bod trefniadau monitro ar waith i sicrhau cydymffurfedd.

16.8 Darperir goruchwyllo ac ymgynghori proffesiynol i'r staff gwaith cymdeithasol gan staff sydd wedi cymhwyso'n briodol ac yn brofiadol.

16.9 Mae staff a gofalwyr yn ymgymryd â hyfforddiant parhaus a datblygu proffesiynol a datblygu sgiliau priodol. Mae'r gofalwyr yn cadw portffolio hyfforddiant.

16.10 Mae gweinyddiaeth wrth-gefn ddigonol, cyfarpar swyddfa, ac isadeiledd i alluogi staff sy'n recriwtio, asesu, goruchwyllo, cefnogi a hyfforddi gofalwyr maeth i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd effeithlon ac effeithiol.

16.11 Mae lefel briodol o gefnogaeth glerigol a gweinyddol.

16.12 Mae'r gweithdrefnau gweinyddol yn briodol i drafod ymholiadau yn brydlon oddi wrth ofalwyr arfaethedig ac unrhyw gais newydd am wasanaethau.

16.13 Mae'r modd i gael gafael ar ystod o gynghorion y mae angen amdanynt i roi gwasanaeth llawn i blant a phobl ifanc ac i gefnogi gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys gofal plant priodol, cyngor meddygol, addysgiadol a chyngor proffesiynol a chyfreithiol arall.

16.14 Darperir i'r holl gyflogeion, gweithwyr sesiwn ac ymgynghorwyr gontractau ysgrifenedig priodol, disgrifiadau swydd ac amodau gwasanaeth.

16.15 Mae holl weithwyr cymdeithasol gwasanaeth maethu yn deall rôl gweithwyr cymdeithasol y plant, ac mae dealltwriaeth glir sut y mae gweithwyr cymdeithasol y gwasanaeth maethu a gweithwyr cymdeithasol y plant yn cydweithio'n effeithiol.

16.16 Mae gan staff gopi o'r canlynol:

- ❖ polisïau ac arferion gwaith mewn perthynas â chwynion a materion disgyblu
- ❖ manylion am y gwasanaethau a gynigir
- ❖ y polisi cyfle cyfartal
- ❖ gweithdrefnau iechyd a diogelwch

Safon 17 – Staff digonol/gofalwyr â'r sgiliau/profiad iawn

17.1 Mae gan y gwasanaeth maethu nifer digonol o staff profiadol a chymwysedig ac mae'n recriwtio ystod o ofalwyr i fodloni anghenion plant a phobl ifanc y mae'n bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer.

17.2 Mae'r cyflenwad o staff sy'n gyfatebol i staff llawnamser, o ran nifer, graddau, profiad a chymwysterau, yn ddigonol i fodloni, bob amser, anghenion y gwasanaeth maethu ac maent yn unol â'r datganiad o ddiben.

17.3 Os bydd y lefelau staffio'n syrthio'n fyr, mae cynlluniau wrth law i ddatrys y sefyllfa.

17.4 Mae polisïau staff yn annog cadw staff cyflogedig – gan gynnwys hyfforddiant, goruchwyllo rheolaidd, seibiant astudio, llwyth gwaith a thelerau ac amodau clir – ac yn annog gofalwyr drwy ddarparu cefnogaeth, hyfforddiant a gwasanaethau.

17.5 Mae gan y gwasanaeth maethu bolisïau a strategaeth recriwtio a anelwyd at recriwtio ystod o ofalwyr i fodloni anghenion plant a phobl ifanc y mae'n bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer.

17.6 Mae gweithdrefnau recriwtio a dethol clir ysgrifenedig ar gyfer penodi gofalwyr sy'n dilyn arferion da wrth ddiogelu plant a phobl ifanc. Mae'r holl bersonél sy'n gyfrifol am recriwtio a dethol staff wedi'u hyfforddi ynddynt ac yn eu deall a'u gweithredu.

17.7 Caiff yr holl ofalwyr arfaethedig eu cyfweld fel rhan o'r broses asesu a dethol a chaiff eu tystlythyrau eu gwirio i asesu addasrwydd cyn cael eu cymeradwyo. Gwneir ymholiadau ar y ffôn yn ogystal â chael tystlythyrau ysgrifenedig.

17.8 Caiff yr holl ofalwyr arfaethedig eu cymeradwyo dim ond ar ôl iddynt hwy ac oedolion eraill yn yr un cyfeiriad wneud cais am a chael tystysgrifau datgelu manwl boddhaol oddi wrth y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

17.9 Cedwir cofnodion o'r archwiliadau a'r tystlythyrau a gafwyd a'u canlyniadau. Gweir gwiriadau yn y Swyddfa Cofnodion Troseddol bob tair blynedd.

17.10 Mae proses asesu a nodwyd yn glir ar gyfer gofalwyr sy'n diffinio:

- ❖ y dasg i'w chyflawni
- ❖ yr ansoddau, cymwyseddau neu doniau a geisir neu y maent i'w chyflawni
- ❖ y safonau sydd i'w cymhwyso yn yr asesiad
- ❖ y camau a'r cynnwys yn y broses ddethol a'r amserau ar eu cyfer
- ❖ yr wybodaeth sydd i'w rhoi i'r ceiswyr.

17.11 Wrth asesu ansawdd, cymwyseddau a doniau ar gyfer maethu, mae'r gwasanaeth maethu yn eu hystyried mewn perthynas â'r canlynol:

- ❖ magu plant
- ❖ gofalu am blant a anwyd i rywun arall
- ❖ cysylltiadau rhwng plant maeth a'u teuluoedd
- ❖ helpu plant i wneud synnwyr o'u gorffennol
- ❖ ffiniau ac agweddau rhywiol
- ❖ ymwybyddiaeth o faterion ynghylch cam-drin plant
- ❖ agweddau at ddisgyblu
- ❖ ymwybyddiaeth o sut i hybu cysylltiadau sicr rhwng plant ac oedolion priodol
- ❖ ymwybyddiaeth o gymhelliad i fodloni anghenion maethu neu anghenion personol drwy'r broses faethu
- ❖ crefydd
- ❖ materion hil/diwylliant/iaith
- ❖ safon byw a ffordd o fyw

- ❖ iechyd
- ❖ profiad personol o fod yn rhiant a chael rhiant
- ❖ profiad personol mewn perthynas ag anabledd a/neu agweddau at anabledd.

Safon 18 –Cyflogwr Teg a Chymwys

18.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn gyflogwr teg a chymwys, gydag arferion cyflogaeth cadarn a chefnogaeth dda i'w staff a'i ofalwyr.

18.2 Mae arferion cyflogaeth cadarn, mewn perthynas â staff a gofalwyr ill dau.

18.3 Mae rheolaeth a gwasanaethau cefnogi y tu allan i oriau ar gael i ofalwyr maeth.

18.4 Mae systemau rheoli ar gyfer goruchwylio, gwerthuso a chefnogi gofalwyr.

18.5 Mae polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr i ofalwyr, plant a staff sy'n ateb yr holl ofynion cyfreithiol.

18.6 O ran asiantaethau, mae yswiriant rhwymedigaeth gyhoeddus ac indemniad proffesiynol i'r holl staff a gofalwyr. Mae'r polisi yswiriant yn ateb y costau sy'n codi yn sgil hawliadau o gam-drin yn erbyn unrhyw staff neu ofalwyr.

18.7 Mae polisi chwythu'r chwiban sy'n hysbys i'r holl staff a gofalwyr.

Safon 19 – Hyfforddiant

19.1 Mae rhaglen hyfforddi o ansawdd da i wella sgiliau unigolion a rhoi gwybod i'r staff am y datblygiadau proffesiynol a chyfreithiol diweddaraf.

19.2 Mae cynllun clir ar gyfer hyfforddi a datblygu'r holl staff sy'n ymwneud â gwaith maethu drwy hyfforddiant cynefino, hyfforddiant ôl-gymhwyso a hyfforddiant mewn swydd. Rhoddir hyfforddiant cynefino i'r holl staff gan ddechrau o fewn 7 diwrnod ar ôl iddynt ddechrau ar eu gwaith a'i gwblhau cyn pen 10 wythnos.

19.3 Mae gwerthusiad neu gynllun adolygu ar y cyd sy'n dynodi anghenion hyfforddiant a datblygiad yr holl staff sy'n ymwneud â gwaith maethu a gofalwyr. Mae rhaglenni unigol ar hyfforddiant ar gael, caiff canlyniadau eu monitro a'u cysylltu ag asesiadau anghenion staff a gofalwyr, ac maent yn ymwneud â'r tasgau a osodwyd iddynt.

19.4 Cedwir yr holl gyflogeion yn hysbys o newidiadau mewn unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau sydd yn berthnasol i'w swyddi.

19.5 Mae effeithiolrwydd y rhaglenni hyfforddi i'r staff sy'n darparu'r gwasanaeth maethu yn cael ei werthuso'n rheolaidd ac adolygir rhaglenni hyffordd a'u diweddarau o leiaf unwaith yn flynyddol.

19.6 Mae'r rhaglenni hyfforddi yn adlewyrchu polisïau'r gwasanaeth maethu.

19.7 Cynhelir hyfforddiant ar y cyd rhwng staff gwasanaeth maethu a gofalwyr maeth ar sail reolaidd.

Safon 20 – Atebolrwydd a Chefnogaeth

20.1 Mae'r holl staff yn briodol atebol ac yn cael cefnogaeth briodol.

20.2 Mae gan yr holl staff fanylion ysgrifenedig clir o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddisgwylir ganddynt, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau'r corff.

20.3 Mae'r holl staff sy'n dod i gysylltiad â gofalwyr maeth a gofalwyr maeth arfaethedig a phlant/pobl ifanc yn cael goruchwyliaeth reoli a chedwir cofnod gan y rheolwr llinell o gynnwys yr oruchwyliaeth a'r cynydd a wneir. Cynllunnir sesiynau goruchwylio cyson ymlaen llaw.

20.4 Mae staff yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd gan eu rheolwr llinell.

20.5 Mae pob aelod o'r staff yn cael cyfle i fynychu cyfarfodydd tîm yn rheolaidd.

Safon 21 – Rheoli a Chefnogi Gofalwyr

21.1 Mae gan y gwasanaeth maethu strategaeth glir ar weithio gyda gofalwyr a'u cefnogi.

21.2 Mae strategaeth glir ar weithio gyda gofalwyr a ddogfennir ac a ddeallir. Mae hyn yn cynnwys:

- ❖ trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu
- ❖ annog grwpiau hunan-help
- ❖ goruchwylio
- ❖ gwasanaethau cefnogol
- ❖ gwybodaeth a chyngor
- ❖ cymorth wrth ymwneud â gwasanaethau perthnasol eraill, megis iechyd ac addysg
- ❖ cefnogaeth y tu allan i oriau
- ❖ gofal seibiant
- ❖ trefniadau ar gyfer adolygu.

21.5 Mae rôl y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo yn glir i'r gweithiwr a'r gofalydd ill dau. Caiff adroddiadau adolygu blynyddol eu paratoi ac maent ar gael i'r Panel Maethu.

21.6 Mae system gyfathrebu dda rhwng gweithwyr cymdeithasol y gwasanaeth maethu a gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

Safon 22 – Goruchwyllo Gofalwyr

22.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn un a reolir sy'n darparu goruchwyliaeth ar gyfer gofalwyr maeth ac yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau.

22.2 Mae cytundebau gofal maeth yn sicrhau bod gan ofalwyr maeth ddealltwriaeth lawn o'r hyn a ddisgwylir oddi wrth ofalwyr maeth, yr asiantaeth a/neu yr awdurdod lleol.

22.3 Goruchwylir pob gofalydd maeth a gymeradwywyd gan weithiwr cymdeithasol â'r cymwysterau priodol a enwir, ac mae ganddo fynediad at waith cymdeithasol digonol ac at gefnogaeth, gwybodaeth a chyngor proffesiynol, sy'n ei alluogi i ddarparu gofal o ansawdd uchel a chyson i blentyn neu berson ifanc a leolir yn ei gartref. Mae'r gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo yn sicrhau bod pob gofalydd y mae'n ei oruchwyllo yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig, yn derbyn, yn deall ac yn gweithredu o fewn, yr holl safonau, polisiau a chanllawiau y cytunwyd arnynt gan y gwasanaeth maethu.

22.4 Wrth gynhyrchu'r Cytundeb Gofal Maeth ar gyfer gofalydd maeth, yn unol ag Atodlen 5 o Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, mae'r darparwydd maethu'n sicrhau bod y Cytundeb yn cynnwys yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt, mewn ffordd ddealladwy, i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol fel gofalydd maeth.

22.5 Wrth gael eu cymeradwyo, rhoddir llawlyfr i ofalwyr sy'n ymwneud â pholisïau, gweithdrefnau, canllawiau, gwybodaeth gyfreithiol a manylion yswiriant. Caiff hwn ei ddiweddarau'n rheolaidd.

22.6 Mae gweithwyr cymdeithasol sy'n goruchwyllo yn cyfarfod yn rheolaidd â'r gofalwyr maeth. Mae pwrpas clir i'r cyfarfodydd ac maent yn rhoi cyfle i oruchwyllo gwaith y gofalwyr maeth. Mae ffeiliau gofalwyr maeth yn cynnwys cofnodion o gyfarfodydd goruchwyllo. Mae ymweliadau achlysurol dirybudd, o leiaf unwaith y flwyddyn.

22.7 Mae system o gefnogaeth ymarferol i ofalwyr, gan gynnwys: cefnogaeth reoli y tu allan i oriau, talu'n brydlon, gwarchodaeth yswiriant, cefnogaeth i gymdeithasau gofal maeth, gofal seibiant, pan fydd yn briodol hwylustod i gael cefnogaeth i waith cymdeithasol.

22.8 Mae gwybodaeth am y gweithdrefnau i ymdrin â chwynion a sylwadau ar gael yn helaeth. Caiff cwynion a sylwadau eu cofnodi a'u monitro a chaiff y canlyniad ei werthuso i fwydo darpariaeth y gwasanaethau yn y dyfodol.

22.9 Caiff gwybodaeth am y gweithdrefnau i ymdrin ag ymchwiliadau i honiadau eu gwneud yn hysbys i staff gofal maeth, gofalwyr a phlant a phobl ifanc ac mae'n cynnwys darparu cefnogaeth annibynnol i'r gofalydd neu'r gofalwyr maeth yn ystod ymchwiliad.

22.10 Cedwir cofnodion am honiadau o gamdriniaeth a'u monitro ac mae fframwaith polisi clir sy'n amlinellu'r amgylchiadau pan ddylid tynnu gofalydd oddi ar gofrestr y gofalwyr maeth.

Safon 23 – Hyfforddi Gofalwyr

23.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod gofalwyr maeth wedi'u hyfforddi yn y sgiliau y mae eu hangen i ddarparu gofal o ansawdd uchel a bodloni anghenion pob plentyn/person ifanc a leolir yn eu gofal.

23.2 Mae cymeradwyaeth o flaen llaw a hyfforddiant cynefino i bob gofalydd yn cynnwys cyfleoedd i fanteisio ar brofiad a gwybodaeth gofalwyr presennol. Mae'r holl ofalwyr maeth newydd yn cael hyfforddiant cynefino.

23.3 Mae pob hyfforddiant yn ffitio i fframwaith arferion cyfle cyfartal, gwrth-wahaniaethol a threfnir ef i annog a hwyluso presenoldeb gofalwyr maeth, er enghraifft drwy gynnwys amser a lle hwylus a darparu gofal plant a threuliau rhesymol.

23.4 Os oes dau oedolyn ar yr un aelwyd yn cael eu cymeradwyo fel gofalwyr ar y cyd, mae'r ddau yn cwblhau pob hyfforddiant yn llwyddiannus. Hyfforddir pob gofalydd maeth mewn meysydd allweddol dynodedig cyn bod unrhyw blentyn yn cael ei leoli yn ei gartref. Rhoddir sylw i anghenion hyfforddi grwpiau penodol, e.e. gofalwyr gwryw.

23.5 Mae rhaglen hyfforddi a hunan-ddatblygiad i ofalwyr maeth ddatblygu eu sgiliau a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau.

23.6 Rhoddir hyfforddiant priodol ar ofalu diogel i holl aelodau'r aelwyd faethu.

23.7 Rhoddir ystyriaeth benodol i unrhyw help neu gefnogaeth y mae angen amdanynt ar feibion a merched y gofalwyr maeth.

23.8 Mae Adolygiad Blynyddol pob gofalydd yn cynnwys gwerthusiad ar anghenion hyfforddi a datblygu, a dogfennir ef yn yr adroddiad adolygu.

23.9 Caiff effeithiolrwydd yr hyfforddiant a geir ei werthuso a'i adolygu'n flynyddol.

[Rheoliadau: Cefnogaeth, hyfforddiant a gwybodaeth i rieni maeth, staffio'r gwasanaeth maethu, Addasrwydd y gweithwyr, Cyflogi staff, Asesu rhieni maeth arfaethedig, Cymeradwyo rhieni maeth]

6. Cofnodion

Wrth fodloni'r safonau hyn mewn perthynas â chadw cofnodion, gall fod gwasanaethau maethu awdurdod lleol yn cadw rhai o'r cofnodion o fewn rhan o adran y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am oruchwylio lleoliad y plentyn, yn hytrach na'r gwasanaeth maethu. Nid oes dim yn y safonau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol bod dwy ran o adran y gwasanaethau cymdeithasol yn cadw dwy set o gofnodion, cyhyd â bod gan y ddwy ran hawl i weld y cofnodion.

Canlyniad

Cedwir yr holl gofnodion priodol ac maent ar gael yn hwylus mewn perthynas â gwasanaethau maethu ac i ofalwyr maeth unigol ac i blant maeth.

Safon 24 – Cofnodion Achos i Blant

24.1 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod cofnod achos cyfoes a chynhwysfawr yn cael ei gynnal ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc mewn gofal maeth sy'n rhoi manylion am natur ac ansawdd y gofal a roir ac sy'n cyfrannu at ei ddealltwriaeth ar ddigwyddiadau yn ei fywyd. Trefnir bod gwybodaeth berthnasol o'r cofnodion achos ar gael i'r plentyn ac i unrhyw un sy'n ymwneud â'i ofal.

24.2 Mae polisi ysgrifenedig ar gofnodi achos sy'n sefydlu'r diben, fformat a chynnwys y ffeiliau, ac yn egluro pa wybodaeth a gedwir ar ffeiliau'r gofalydd maeth a pha wybodaeth a gedwir ar ffeiliau'r plentyn.

24.3 Pan fydd lleoliad gan asiantaeth mae'r asiantaeth yn gweithio gyda'r awdurdod cyfrifol i sicrhau bod gwybodaeth y mae'r asiantaeth yn ei dal mewn ffeiliau achos a rhai'r awdurdod cyfrifol yn cael eu cyfuno'n effeithiol. Mae'r asiantaeth yn darparu copiâu o gofnodion a dogfennau mewn perthynas â phlant a leolir gan awdurdod cyfrifol ar unwaith, pan ddaw cais ysgrifenedig i law. Pan fydd plentyn yn gadael lleoliad gofal maeth gan asiantaeth, mae'r asiantaeth yn anfon yr holl gofnodion perthnasol at yr awdurdod cyfrifol.

24.4 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod y gofalydd maeth yn gwybod pam y mae'r plentyn mewn gofal maeth ac yn deall y rhesymau am y lleoliad presennol, pa mor hir yw'r cyfnod a fwriedir a'i ddiben, a manylion statws cyfreithiol y plentyn.

24.5 Mae'r gofalydd maeth yn annog y plentyn i fyfyrion ar ei hanes a'i ddeall, yn unol ag oedran a gallu'r plentyn, a chadw pethau cofiadwy priodol. Mae'r gwasanaeth maethu yn gwneud y rôl hon yn glir i'w ofalwyr maeth.

24.6 Mae'r gwasanaeth maethu yn rhoi pob hwylustod i'r gofalydd maeth i'r holl wybodaeth berthnasol i helpu'r plentyn ddeall a dod i delerau â digwyddiadau yn y gorffennol. (Pan na fydd yr awdurdod cyfrifol yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol, cedwir copi o'r cais ysgrifenedig er gwybodaeth.)

24.7 Mae'r gofalydd wedi'i hyfforddi a'i ddarparu â'r cyfarpar angenrheidiol i gofnodi digwyddiadau arwyddocaol ym mywyd y plentyn, ac annog y plentyn i wneud cofnodion o'r fath, gan gynnwys albwm lluniau.

24.8 Mae'r gwasanaeth maethu yn sicrhau bod eu gofalwyr yn storio gwybodaeth mewn modd diogel ac yn deall pa wybodaeth y disgwylir iddynt ei chadw a pha wybodaeth ddylid ei throsglwyddo i'r gwasanaeth maethu.

Safon 25 – Y Drefn Gwyno

25.1 Bydd y gwasanaeth yn cynghori staff, pobl eraill sy'n ymwneud â'r gwasanaeth maethu, rhai sy'n derbyn y gwasanaeth neu'r rhai y gwrthodwyd gwasanaeth iddynt, am eu hawl i wneud cynrychiolaeth neu gwyn. Er enghraifft :

- ❖ Plant a gafodd eu maethu neu sydd i'w maethu
- ❖ Rhieni a gwarcheidwaid plant o'r fath
- ❖ Gofalwyr a gofalwyr arfaethedig
- ❖ Pobl sy'n gwneud ymholiadau am ddod yn ofalwyr maeth.

Mae angen helpu plant i wneud cŵyn os oes angen.
Rhaid i'r drefn gwyno ysgrifenedig fod ar gael yn hwylus pan ofynnir amdani.

25.2 Y drefn gwyno:

- ❖ Mae'n cynnwys gwybodaeth ar sut i wneud sylwadau neu gwynion;
- ❖ Nid yw'n cyfyngu ar y materion y cânt gwyno amdanynt;
- ❖ Mae'n pennu sut y bydd sylwadau neu gwynion yn cael eu trafod;
- ❖ Mae'n pennu faint o amser a gymerir gan y drefn;
- ❖ Mae'n cynnwys cyfnod penderfynu'n anffurfiol;
- ❖ Mae'n darparu gwybodaeth ar ddulliau eraill o gwyno, pan fydd yn briodol, yr hawl a'r modd i bawb o dan sylw i ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdodau lleol, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, y Comisiynydd dros Weinyddiaeth leol a Chomisiynydd Plant Cymru;
- ❖ Mae'n nodi trefniadau clir ar gyfer trafod unrhyw gŵyn a wnaed yn erbyn rheolwr y gwasanaeth maethu;
- ❖ Mae ar gael yn hwylus i bobl a phlant anabl ac i'r rhai â nam synnwyr neu nam dysgu ac i'r rhai nad Saesneg neu Gymraeg yw eu hiaith gyntaf;
- ❖ Mae'n galluogi pobl heblaw'r plentyn i wneud cwynion ar ran y plentyn, ar yr amod bod y plentyn yn cydsynio i hyn os yw'n gymwys i wneud hynny;
- ❖ Mae'n sicrhau na fydd unrhyw unigolion yn dioddef gwahaniaethu, anfantais, tynnu gwasanaeth yn ôl neu leihau gwasanaeth o ganlyniad i wneud sylwadau neu gwynion; ac

- ❖ Mae'n sicrhau na fydd neb sy'n destun cŵyn yn ymwneud ag unrhyw ran o'i ystyriaeth heblaw, os yw'r gwasanaeth maethu o'r farn ei fod yn briodol, yn y cyfnod anffurfiol yn unig.

25.3 Eir i'r afael ag unrhyw gynrychioliad neu gŵyn yn ddifrifol ac yn ddi-oed. Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant yn y drefn gwyno sy'n ymwneud â'r meysydd canlynol:

- ❖ Beth sy'n gwneud cynrychioliad neu gwyn;
- ❖ Y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chynrychioliad neu gŵyn a sut y cofnodir hyn;
- ❖ I bwy y gellir gwneud cynrychioliad neu gŵyn y tu allan i'r gwasanaeth maethu;
- ❖ Y weithdrefn sydd i'w dilyn os na phenderfynir ar gynrychioliad neu gŵyn yn brydlon drwy ddull anffurfiol, gan gynnwys pwy ddylid ei hysbysu a chadw cofnodion; a
- ❖ Sut y gellir cynorthwyo plentyn wrth wneud cynrychioliad neu gwyn.

25.4 Mae'r gwasanaeth maethu yn cynnal cofnodion cyflawn o'r holl gwynion a sylwadau a wneir a sut yr ymdriniwyd â hwy, gan gynnwys y canlyniad.

25.5 Mae'r gwasanaeth maethu yn adolygu'r cofnodion o leiaf unwaith yn flynyddol a gwirio bod y drefn gwyno'n gweithredu'n foddhaol, gweld unrhyw batrymau i'r cwynion a'r camau a gymrwyd ar gwynion unigol.

25.6 Mae'r gwasanaeth maethu yn cymryd camau priodol ar ôl yr adolygiad hwnnw mewn perthynas â'i bolisiâu a'i arferion, yn ogystal â chymryd y camau angenrheidiol hynny mewn perthynas ag achosion unigol. Dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r camau a gymerir.

Safon 26 – Cofnodion gweinyddol

26.1 Mae cofnodion gweinyddol y gwasanaeth maethu yn cynnwys pob gwybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol i redeg y gwasanaeth gofal maeth ac yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

26.2 Cedwir cofnodion ar wahân ar gyfer:

- ❖ staff, y sawl a gyflogir a'r staff annibynnol/ sesiynol
- ❖ gofalwyr
- ❖ plant
- ❖ cwynion
- ❖ honiadau.

26.3 Mae system i fonitro ansawdd a digonolrwydd cofnodion, a chymerir camau i adfer pan fydd angen.

26.4 Caiff cofnodion cyfrinachol eu storio'n ddiogel bob adeg ac mae polisi clir ar gael eu gweld.

26.5 Mae cofnodion ar ffurf y gellir eu trosglwyddo'n hwylus os bydd plentyn yn symud i leoliad arall, neu os yw'n peidio â derbyn gofal neu os gofynnir am dystlythyrau am aelod o'r staff neu ofalydd.

26.6 Mae cofnod parhaol, preifat a diogel ar gyfer pob plentyn a gyfeirir at y corff a phob gofalydd maethu a benodir ganddo. Gall hwn gael ei weld, wrth gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ar ddiogelwch, gan y plentyn a'i rieni neu ofalwyr maeth.

26.7 Mae polisi ysgrifenedig ac arweiniad ar weithdrefnau i staff ar sut i gadw a chynnal ffeiliau achos gan sicrhau bod gofalwyr maeth, plant maeth a'u rhieni'n gwybod am natur y cofnodion a gedwir a sut i gael eu gweld.

26.8 Mae gweithdrefn ar storio a rheoli gwybodaeth gyfrinachol sy'n hysbys i aelodau panel, staff a chynghorwyr arbenigol.

26.9 Mae'r cofnodion a ysgrifennir yn ddarllenadwy, wedi'u mynegi'n glir, yn ddi-stigma, ac yn gwahaniaethu rhwng ffaith, barn a gwybodaeth oddi wrth drydydd parti.

26.10 Mae'r system ar gadw cofnodion yn gyfaddas â'r System Gofalu am Blant/System Blant Integredig.

26.11 Cedwir cofnodion o'r archwiliadau a'r tystlythyrau a gafwyd a'u canlyniadau.

26.12 Anogir plant a gofalwyr maeth i edrych ar eu cofnodion, gwneud ychwanegiadau a sylwadau a chofnodi datganiadau personol, gan gynnwys unrhyw anghytundeb.

26.13 Mae system ar gyfer cadw cofnodion am honiadau a chwynion a'u trafod yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Cofnodir cwynion a honiadau yn glir ar y ffeiliau perthnasol i staff, gofalwyr a phlant – gan gynnwys manylion am yr ymchwiliad, y penderfyniad a'r camau a gymerwyd. Cedwir cofnodion ar wahân hefyd sy'n dod â data ar honiadau a chwynion ynghyd.

[Rheoliadau: Cofnodion mewn perthynas â gwasanaethau maethu, Cofnodion achos sy'n ymwneud â rhieni maeth ac eraill]

7. Addasrwydd tir ac adeiladau at ddefnydd gwasanaeth maethu

Canlyniad

Mae'r tir ac adeiladau a ddefnyddir yn swyddfeydd gan y darparwydd maethu yn addas i'r diben.

Safon 27 – Tir ac adeiladau

27.1 Mae'r tir ac adeiladau a ddefnyddir yn swyddfeydd gan y darparwydd maethu yn addas i'r diben.

27.2 Mae tir ac adeiladau swyddfa ddynodedig y mae gan staff ac eraill sydd â budd cyfreithiol ynddi rwydd hynt i fynd iddi yn ystod oriau arferol swyddfa.

27.3 Mae systemau gweinyddol effeithiol a chadarn, gan gynnwys TG a systemau telathrebu. Ar y tir ac yn yr adeiladau mae:

- ❖ cyfleusterau ar gyfer cadw cofnodion yn ddiogel mewn ystafell â chlo
- ❖ mesurau priodol i ddiogelu systemau TG a
- ❖ system ddiogelwch briodol.

27.4 Mae'r tir ac adeiladau'n darparu canolfan â chyfarpar y gall staff weithio ynddi.

27.5 Mae'r tir ac adeiladau a'u cynnwys wedi'u hyswiro'n ddigonol (neu mae dulliau amgen prydlon i gael eitemau newydd yn lle'r rhai a gollwyd).
[Rheoliad: Addasrwydd y tir a'r adeiladau]

8. Gofynion ariannol

Canlyniad

Mae'r asiantaeth gwasanaethau maethu yn hyfyw yn ariannol a thelir gofalwyr maeth yn briodol ac yn amserol.

Safon 28 – Hyfywedd ariannol

28.1 Mae'r asiantaeth yn sicrhau ei bod yn ariannol hyfyw drwy'r amser ac mae ganddi adnoddau ariannol digonol i gyflawni ei rhwymedigaethau.

28.2 Mae gweithdrefnau yn bodoli i ddelio ag argyfyngau ariannol, megis datgelu gwybodaeth i brynwyr a chysylltu â hwy i ddiogelu lles plant sy'n derbyn gwasanaethau drwy'r asiantaeth.

28.3 Cydymffurfir â rheoliadau a chanllawiau sy'n cael eu rhoi ar fusnesau. Mae hyn yn cynnwys Treth Incwm (TWE), Yswiriant Cenedlaethol a TAW.

Safon 29 – Prosesau ariannol

29.1 Mae prosesau/systemau ariannol yr asiantaeth yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn unol â safonau ac arferion cyfrifo cadarn a phriodol.

29.2 Mae gan yr asiantaeth drefniadau ariannol sydd wedi'u dogfennu'n glir ar gyfer rheoli a goruchwyllo ei materion ariannol a'i phwerau.

29.3 Mae gan yr asiantaeth gyfres o egwyddorion a safonau ysgrifenedig clir sy'n llywio ei rheolaeth ariannol a chaiff hyn ei gyfleu i'w rheolwyr a'i chyfrifwyr.

29.4 Mae gan yr asiantaeth set o egwyddorion ysgrifenedig sy'n disgrifio'r gweithdrefnau a'r cyfrifoldebau ariannol sydd i'w dilyn gan bob un o'r staff, ymgynghorwyr, arbenigwyr proffesiynol, cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac unrhyw reolwr.

29.5 Mae cyfrifon yr asiantaeth yn cael eu cadw a'u cynnal ac yn cael eu harchwilio'n briodol gan gyfrifydd cofrestredig.

29.6 Mae'r darparydd cofrestredig yn derbyn gwybodaeth reolaidd ar gyflwr ariannol yr asiantaeth.

29.7 Mae'r asiantaeth yn cyhoeddi ei thaliadau ar gyfer bob un o'i gwasanaethau ac mae ganddi bolisi clir ar gyfer codi ffioedd a threuliau ar gyfer unrhyw wasanaeth ychwanegol y gofynnir iddi ei ddarparu. Mae modd i brynwyr ac eraill sydd â buddiant dilys gael copi o'r datganiad os gwneir cais am hynny.

Safon 30 – Talu gofalwyr

30.1 Mae pob gofalydd maeth yn derbyn lwfans a threuliau y cytunir arnynt, sy'n cwmpasu cost lawn gofalu am bob plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei leoli gydag ef. Caiff taliadau eu talu'n brydlon ac ar yr amser a gytunwyd. Adolygir lwfansau a ffioedd yn flynyddol.

30.2 Ceir polisi ysgrifenedig ar lwfansau maeth. Mae hwn a'r lefelau lwfans presennol yn cael eu hysbysebu'n dda ac yn cael ei ddarparu i bob gofalwr bob blwyddyn. Mae'r gofalydd yn derbyn gwybodaeth glir ynghylch y lwfansau a'r treuliau sy'n daladwy a sut y gellir eu derbyn, cyn i blentyn gael ei leoli.
[Rheoliad: Sefyllfa ariannol]

9. Panelau maethu

Canlyniad

Caiff panelau maethu eu trefnu'n effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau bod ansawdd da i'r penderfyniadau a wneir am gymeradwyo gofalwyr maeth, yn unol â'r amcan llywodraethol i hybu a diogelu lles plant mewn gofal maeth.

Safon 31

31.1 Mae gan y panel maethu bolisiâu ysgrifenedig clir a gweithdrefnau, a roddir ar waith, ynghylch trafod eu swyddogaethau.

31.2 Mae'r gweithdrefnau ysgrifenedig yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau pan na fydd holl aelodau'r panel yn gytûn.

31.3 Mae gan y panelau maethu fynediad at arbenigedd meddygol pan fo angen.

31.4 Mae panelau maethu yn darparu swyddogaethau o ansawdd da mewn perthynas â'r broses asesu – yn benodol i fonitro ac adolygu gwaith yr aseswyr; darparu adborth; adnabod problemau; a sicrhau bod agwedd gyson wrth asesu ledled y gwasanaeth, sydd yn deg i bob ceisydd a'i fod wedi ei wneud mewn modd trylwyr a manwl gywir.

31.5 Mae panelau maeth yn cael gwybodaeth reoli am ganlyniad adolygiadau blynyddol gofalwyr maeth.

31.6 O ran panelau awdurdodau lleol, mae'r panel yn monitro'r ystod a'r math o ofalwyr sydd ar gael i'r awdurdod mewn cymhariaeth ag anghenion plant.

31.7 Mae'r aelodau annibynnol ar y panel yn cynnwys, i'r graddau y mae'n bosibl, arbenigedd mewn addysg ac iechyd plant.

31.8 Mae un o'r aelodau annibynnol fel arfer yn berson a gafodd ei leoli ar ryw adeg neu'i gilydd gyda gofalwyr maeth neu y cafodd ei blentyn ei leoli ar ryw adeg neu'i gilydd gyda gofalwyr maeth.

[Rheoliadau: Sefydlu panel maethu, cyfarfodydd y panel maethu, Swyddogaethau'r panel maethu]

10. Seibiannau tymor byr

Canlyniad

Pan ddarperir gofal maeth fel seibiant tymor byr i blentyn, mae'r trefniadau'n cydnabod bod y rhieni'n parhau yn brif ofalwyr y plentyn.

Safon 32

32.1 Pan fydd gwasanaeth maethu yn darparu seibiannau tymor byr i blant mewn gofal maeth, mae ganddynt bolisiau a gweithdrefnau ar waith, i fodloni anghenion penodol plant y mae angen seibiannau tymor byr arnynt.

31.2 Pan fydd yn briodol, mae gofynion ar gyfer lleoliadau gofal maeth am seibiannau tymor byr yn wahanol i'r rhai ar gyfer plant a faethir am gyfnodau hwy. Yn benodol, mae rhieni geni yn ganolog i hybu anghenion iechyd ac addysg .

11. Teulu a chyfeillion fel gofalwyr

Canlyniad

Mae polisiau a gweithdrefnau gwasanaethau maeth awdurdod lleol i asesu, cymeradwyo, cefnogi a hyfforddi gofalwyr maeth yn cydnabod y cyfraniad arbennig y gall teuluoedd a ffrindiau eu gwneud fel gofalwyr a'u hanghenion penodol.

Safon 33

33.1 Mae'r holl safonau hyn yn berthnasol i ofalwyr sy'n deulu ac yn ffrindiau i blentyn, ond cydnabyddir y berthynas a'r lle arbennig i ofalwyr sy'n deulu ac yn ffrindiau i blentyn.

33.2 Mae gwasanaethau maethu awdurdod lleol yn hydeiml i berthynas sydd eisoes yn bod wrth asesu a chymeradwyo teuluoedd a ffrindiau fel gofalwyr maeth.

33.3 Caiff anghenion cefnogi a hyfforddi gofalwyr sy'n deulu a ffrindiau eu hasesu a'u bodloni yn yr un modd ag i unrhyw ofalwyr eraill.

33.4 Cafodd y mecanweithiau o fewn gwasanaeth maethu awdurdod lleol ar gyfer asesu a chymeradwyo gofalwyr sy'n deulu a ffrindiau eu llunio mewn modd sy'n annog eu hystyried fel gofalwyr.

Geirfa

Bwriedir y bydd yr eirfa hon yn gymorth cyffredinol i'r darllenydd i ddehongli'r safonau Nid yw'r diffiniadau a ddarperir yn effeithio ar unrhyw ystyr sydd i ymadrodd o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Camdriniaeth

Rhywbeth sy'n peri niwed gwirioneddol neu niwed sy'n debygol o fod yn arwyddocaol i blentyn. Gall fod yn gorfforol, emosiynol neu rywiol, neu'n esgeulustod o blentyn.

Eiriolydd

Person sy'n cynorthwyo plentyn i gyflwyno ei sylwadau neu i bledio achos ar ei ran.

Bwlio

Yn gyffredinol, byddai bwlio yn cynnwys achosi poen, gofid, pryder, gwaradwydd neu ddieithriad cymdeithasol yn fwriadol neu mewn ffordd gydnabyddedig i un plentyn gan un neu ragor o blant eraill, drwy ddulliau corfforol neu eiriol, neu drwy niweidio eiddo neu ei golli.

Cynllun gofal

Cynllun y cytunir arno ar gyfer gofalu am blentyn a diwallu anghenion presennol a dyfodol y plentyn hwnnw, sy'n cael ei wneud gan awdurdod lleoli o dan Ddeddf Plant 1989.

Amddiffyn plant

Cymryd camau rhesymol i leihau'r perygl o gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, esgeulustra neu niwed sylweddol i blentyn, galluogi plant a staff i leisio pryderon ynghylch camdriniaeth wirioneddol neu bosibl neu niwed sylweddol, ac ymateb yn briodol i honiadau, digwyddiadau neu amheuan o gamdriniaeth neu niwed sylweddol i blentyn.

Swyddfa Cofnodion Troseddol

Corff cenedlaethol sy'n cynnal gwiriadau'r heddlu i ganiatáu i asesiad gael ei wneud (e.e. gan ysgol) ar gymhwyster person i weithio gyda phlant.

Mae lefelau gwirio gwahanol ar gyfer lefelau gwahanol o gysylltiad rheolaidd â phlant a chyfrifoldeb am eu goruchwyllo.

Cynefino

Hyfforddiant cychwynnol neu'r canllawiau a roddir wrth ddechrau ymwneud â darparydd gwasanaethau maethu.

Disgrifiad Swydd

Datganiad ysgrifenedig, cytûn a chyfoes o brif dasgau a chyfrifoldebau swydd aelod staff yn y gwasanaeth maethu, gan gynnwys diffiniad cyffredinol o'u rôl a'r person y maent yn atebol iddo.

Esgeulustod

Methiant un tro neu droeon i gymryd camau priodol sy'n golygu bod niwed neu ofid yn cael ei ddioddef gan y plentyn neu'r person ifanc.

Lleoliad

Y cytundeb i blentyn fod yn byw mewn man penodol.

Polisi

Datganiad gweithredol o fwriad sy'n helpu'r staff i wneud penderfyniadau cadarn a chymryd camau sy'n gyfreithlon, yn gyson â nodau'r gwasanaeth maethu, ac er lles plant a phobl ifanc.

Gweithdrefn

Y camau a gymerir i gyflawni polisi.

Person Cofrestredig

Person sydd naill ai yn darparu gwasanaeth maethu (drwy asiantaeth) ac wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Safonau Gofal Cenedlaethol er mwyn gwneud hynny (y darparydd cofrestredig); neu sy'n rheoli'r gwasanaeth ac wedi cofrestru gyda'r Comisiwn er mwyn gwneud hynny (y rheolwr cofrestredig).

Staff

Person sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu neu ar ran y gwasanaeth, boed am gyflog neu'n wirfoddol, yn llawn amser neu'n rhan-amser, dros dro, drwy asiantaeth neu ar gontract.

Datganiad o ddiben

Dogfen y mae ei hangen o dan y Rheoliadau ac sy'n diffinio amcanion y gwasanaeth maethu, ac sy'n ymdrin â'r materion hynny sy'n cael eu nodi yn y diffiniad yn y Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Lles

Bodloni anghenion corfforol, anghenion diogelwch, anghenion personol, anghenion emosiynol ac anghenion ysbrydol rhesymol pob plentyn unigol, rhoi cymorth a chyfarwyddyd iddynt yn ôl yr angen, a galluogi datblygiad normal y plentyn ar gyfer y dyfodol a'i foddhad yn y presennol, gan gymryd i ystyriaeth oedran, nodweddion a dymuniadau'r plentyn.

Llyfryddiaeth

UK Joint Working Party on Foster Care, Code of practice on the recruitment, assessment, approval, training, management and support of foster carers. Llundain Cymdeithas Genedlaethol Gofal Maeth 1999. ISBN: 189788869274

UK Joint Working Party on Foster Care, UK National Standards for foster care. Llundain: Cymdeithas Genedlaethol Gofal Maeth 1999. ISBN: 1897869266

